

Cyfarfod y Bwrdd

Cofnodion cyhoeddus y cyfarfod

15 Mai 2024



Cofnodion cyfarfod y Bwrdd heb eu cymeradwyo, 15 Mai 2024

Yn bresennol

Caroline Corby (CC - Cadeirydd)
Alan Clamp (AC - Prif Weithredwr)
Marcus Longley (ML)
Frances Done (FD)
Juliet Oliver (JO)
Moi Ali (MA)
Tom Frawley (TF)
Ruth Ajayi (RA)

Yn mynychu

Marija Hume
Rachael Culverhouse-Wilson
Suzanne Dodds
Akua Dwomoh-Bonsu
Nirosha Thilagarajan
Oyinkan Onile-Ere
Dinah Godfree
Melanie Venables
Simon Wiklund
Max Sesay
Dan Scott
Melanie Hueser (Ysgrifenyddiaeth)

Sylwedyddion

Gweler isod

1. Croeso a Chyflwyniadau a Datganiadau o Ddiddordeb

- 1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb i gyfarfod y Bwrdd. Roedd y sylwedyddion yn cynnwys aelodau o staff a sylwedyddion allanol: Anisah Chowdhury (GMC) a Terry Korateng (NMC).
- 1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Christine Braithwaite, yr oedd hwn yn gyfarfod olaf y Bwrdd iddi, ar ran holl aelodau'r Bwrdd am ei gwaith rhagorol dros ei 14 mlynedd yn y PSA.
- 1.3 Croesawodd y Cadeirydd Ruth Ajayi, yr aelod Cyswllt newydd o'r Bwrdd, i'w chyfarfod Bwrdd cyntaf.

2. Ymddiheuriadau

- 2.1 Anfonodd Nick Simkins ymddiheuriadau.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024

- 3.1 Gofynnodd y Bwrdd i baragraff 8.2 gael ei newid i 'Cadarnhawyd y gallai'r diffyg a ragwelwyd, a oedd yn bennaf oherwydd gorwariant Adran 29, y tu allan i reolaeth y PSA, gael ei amsugno drwy'r cronfeydd wrth gefn.'
- 3.2 Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024 fel cofnod gwir a chywir.

4. **Camau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod ar 20 Mawrth 2024**

- 4.1 17 Ionawr, Eitem 5.6 'Ychwanegu trafodaeth ar amrywiaeth y Bwrdd at agenda'r Pwyllgor Enwebiadau.' Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfarfod dilynol o'r drafodaeth hon yn y Pwyllgor Enwebiadau wedi'i drefnu. Cynhaliwyd gweithdy'r Bwrdd ar 'Sut i gynyddu amrywiaeth mewn penodiadau (y Bwrdd)' ar 24 Ebrill.
- 4.2 Roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**

- 5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a llongyfarchodd Nick Simkins ar ei benodiad yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg o 1 Gorffennaf. Bydd Nick hefyd yn fentor i Ruth Ajayi.
- 5.2 Llongyfarchodd y Cadeirydd Melanie Venables ar ei phenodiad yn Gyfarwyddwr Polisi a Chyfathrebu o 1 Gorffennaf.
- 5.3 Roedd y broses o recriwtio aelod newydd o'r Bwrdd i gymryd lle Nick wedi dechrau; gwneir hyn yn fewnol, gyda Julie Dent yn aelod annibynnol o'r panel.
- 5.4 Bydd y Pwyllgor Enwebiadau yn trafod yn eu cyfarfod nesaf a ddylid newid tymhorau'r Bwrdd i ddau dymor o dair blynedd (dau dymor o bedair blynedd ar hyn o bryd). Bydd penodi fesul cam o bosibl hefyd yn cael ei drafod. Daw argymhelliad i gyfarfod Bwrdd yn y dyfodol.
- 5.5 Roedd y Cadeirydd wedi gorffen holl arfarniadau'r Bwrdd a bydd y manylion yn cael eu rhannu yn adroddiad y Cadeirydd ym mis Gorffennaf.
- 5.6 Rhannwyd amcanion y Prif Weithredwr gyda holl aelodau'r Bwrdd a gofynnodd y Cadeirydd i'r holl sylwadau gael eu rhannu erbyn dydd Gwener, 24 Mai.
- 5.7 **Nodwyd** yr adroddiad gan y Bwrdd.

6. **Adroddiad gweithredol a dangosfwrdd prosiectau**

- 6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem. Roedd tua 150 o ymatebion wedi dod i law ar y canllawiau drafft ar weithredu diwygiadau, gyda'r mwyafrif yn cefnogi dull y PSA.
- 6.2 **Cytunodd** y Bwrdd i ddirprwyo cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
- 6.3 Roedd rhai o'r prosiectau ar y dangosfwrdd ychydig dros y terfynau amser, ac nid oedd pob un ohonynt, fel y Prosiect Diogelu, o dan reolaeth PSA. Roedd prosiect y wefan yn peri mwy o bryder, ond roedd cynnydd wedi'i wneud a byddai rheolwr y prosiect yn cael ei gadarnhau yn y dyddiau nesaf. Bydd diweddariadau pellach yn dilyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.
- 6.4 Roedd y Bwrdd wedi cytuno ar newidiadau i'r cynllun dirprwyo yn y fframwaith llywodraethu. Anfonir hwn at y Bwrdd i'w gymeradwyo ar ôl y cyfarfod.
- 6.5 **Adran 29:** Roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r broses gwneud penderfyniadau er mwyn atal yr un person rhag gwneud penderfyniadau ar wahanol gamau. Roedd y newidiadau i'r fframwaith llywodraethu hefyd yn golygu nad oedd paneli bellach yn mynnu bod aelod o'r Bwrdd yn cael ei gynnwys.

- 6.6 Roedd adolygiad cychwynnol i gamau eraill wedi dechrau, ac roedd arbedion effeithlonrwydd wedi'u gwireddu mewn amrywiol ffyrdd llai. Roedd trosolwg o'r gost wedi'i drafod gyda'r Pwyllgor Craffu. Roedd gwaith ar ddangos gwerth am arian a mesur llwyddiant yn parhau.
- 6.7 Roedd adolygiad ansoddol a meintiol o bwyntiau dysgu a rhannu dysgu ar y gweill.
- 6.8 Bydd y Bwrdd yn dechrau derbyn diweddariadau ar gynnydd a chanlyniadau'r ffyrddau gwaith amrywiol o fis Medi 2024.
- Cam gweithredu:** GM i ddod â diweddariad ar gynnydd yr adolygiad Adran 29 a'r adolygiad pwyntiau dysgu i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.
- 6.9 Holodd y Bwrdd pryd y byddai nifer y penderfyniadau terfyn amser statudol yn gostwng a chadarnhawyd y byddai'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn hwyluso hyn.
- 6.10 Cadarnhawyd y bydd proses ar gyfer adroddiad blynyddol ar y prosesau a'r pwyntiau dysgu yn cael ei datblygu unwaith y bydd y newidiadau wedi'u gweithredu, a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth 2025.
- 6.11 Bydd dadansoddiad o apeliadau Adran 29 yn cael ei gynllunio i ddechrau ar ddiwedd y flwyddyn galendr. Bydd gwybodaeth am themâu a nodweddion eraill yn parhau i gael ei chasglu drwy gydol y flwyddyn. Pwysleisiodd y Bwrdd y byddai angen hyn i gynllunio'r gyllideb.
- Cam gweithredu:** GM i ddod â rhagolwg o nifer tebygol yr apeliadau i gyfarfod y Bwrdd ym Ionawr 25.
- 6.12 **Cofrestrau Achrededig (AR) ac Adolygu Perfformiad (PR) – prosiect Adolygu Safonau:** Roedd y Pwyllgor Craffu wedi trafod y cynlluniau ar gyfer datblygu safonau unedig ar gyfer AR a PR ac wedi cytuno i gynlluniau i'w gweithredu o fis Ebrill 2026, gyda dyddiadau prosiect yn cael eu pennu o hyn. Bydd diweddariadau yn dod i'r Bwrdd ar y dangosfwrdd prosiect ac i'r Pwyllgor Craffu.
- 6.13 Roedd y tîm Polisi yn gweithio ar yr ymateb i ymgynghoriad diwygio rheoleiddiol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ac roedd hefyd yn paratoi ymateb i ymgynghoriad gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar reoleiddio deintyddion tramor.
- 6.14 Mynegodd y Bwrdd ei werthfawrogiad am y diweddariad ar y comisiwn gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban. Cadarnhawyd bod y broses ar gyfer y comisiwn yn dilyn argymhellion yr archwiliad mewnol ar gomisiynau a gynhaliwyd ychydig flynyddoedd yn ôl. Cadarnhawyd hefyd, pe byddai problem gyda chapasiti oherwydd y comisiwn, byddai modd dod ag adnoddau ychwanegol i mewn diolch i'r incwm o'r comisiwn hwn.
- 6.15 Gofynnodd y Bwrdd am fanylion y gwaith sy'n mynd rhagddo i annog Cofrestrau Achrededig i arddangos y nod ansawdd. Cadarnhawyd mai dim ond yn ddiweddar yr oedd y gwaith hwn wedi dechrau a bod tîm y Rhaglen Cyfathrebu a Chofrestrau Achrededig yn gweithio gydag unigolion cofrestredig yn uniongyrchol yn ogystal â'r Cofrestrau Achrededig i hyrwyddo arddangos y nod ansawdd.
- 6.16 Cadarnhawyd bod yr ymgyrch dylanwadwyr yn dal i gael ei chynllunio ar gyfer ymgysylltiadau Cyfathrebu yn y dyfodol.

- 6.17 Holodd y Bwrdd a oedd yn werth mynd ar drywydd gwaith ar y mater cod cyffredin. Eglurwyd er bod amharodrwydd ymhlith y rheoleiddwyr i ddilyn cod cyffredin, teimlai aelodau'r cyhoedd, undebau a chofrestryddion y byddai budd mewn cod ymddygiad cyffredin ar draws y proffesiwn. Bydd y tîm yn adolygu ymchwil a dderbyniwyd gan asiantaeth allanol i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.
- 6.18 Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) wedi adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon (ARA) drafft. Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi dechrau ei harchwiliad allanol, a bydd ARC yn cymeradwyo'r ARA yn ei gyfarfod ym mis Mehefin. Bydd yr ARA yn cael ei osod gerbron y Senedd ddiwedd mis Mehefin.
- 6.19 Parhaodd recriwtio i fod yn brysur, gyda Rheolwr Prosiect y Wefan wedi cael cynnig y rôl. Roedd yr asiantaeth recriwtio ar gyfer recriwtio'r Bwrdd wedi'i dewis. Bydd recriwtio ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dechrau dros yr haf, gyda Chymru yn dilyn yn yr hydref. Cadarnhawyd y bydd mis Gorffennaf yn cael ei osgoi ar gyfer gweithgareddau yng Ngogledd Iwerddon.

7. Adroddiad cyllid

- 7.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr eitem. Y gorwariant terfynol oedd £113,000, a oedd yn bennaf oherwydd costau cyfreithiol yn y gwaith Adran 29.
- 7.2 Bu gwarged o £86,000 yn y Rhaglen Cofrestrau Achrededig.
- 7.3 Ar gyfer cyllideb 2024/25 y bwriad oedd dychwelyd £290,000 i'r rheoleiddwyr.
- 7.4 Holodd y Bwrdd a fyddai'n bosibl cael rhagolygon mwy cywir drwy gydol y flwyddyn. Cadarnhawyd y bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i gadarnhau eu rhagolygon yn fwy manwl gywir gyda deiliaid cyllidebau.
- 7.5 **Nodwyd** yr adroddiad gan y Bwrdd.

8. Archwaeth risg

- 8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem. Roedd wedi cyfarfod â'r holl Benaethiaid Swyddogaethau i drafod archwaeth a rheolaeth risg yn eu meysydd i baratoi ar gyfer y drafodaeth Bwrdd hon.
- 8.2 Roedd y PSA yn amharod i gymryd risg o ran twyll, seiberddiogelwch ac iechyd a diogelwch, fel y gellid disgwyl.
- 8.3 Cytunodd y Bwrdd fod yr archwaeth risg a amlinellwyd yn y papur ar y lefel gywir. Holwyd a oedd mynegi awydd i chwilio am risg yn hollol gywir ac a ddylid aralleirio hyn i'w gwneud yn glir mai awydd i arloesi ydoedd a bod ymwybyddiaeth o'r risgiau cysylltiedig.
- 8.4 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r archwaeth risg ar gyfer unrhyw beth a fyddai'n lleihau swyddogaeth graidd y PSA fod yn isel. Trafodwyd hefyd sut y gellid mynd i'r afael â phethau fel yr ôl-groniadau heb godi risgiau i lefelau annerbyniol a sut y gellid pwysu a mesur bod yn gefnogol i welliannau posibl drwy ddiwygio yn erbyn y perygl o leihau diogelwch y cyhoedd.
- 8.5 Cytunodd y Bwrdd fod mewnwelediad i'r trafodaethau hyn wedi bod yn ddefnyddiol ac y dylid eu parhau o fewn y Cyfarwyddiaethau.

- 8.6 Cytunodd y Bwrdd y byddai edrych ar risg eto ar lefel y Bwrdd ac yn arbennig ei ystyried o safbwynt y cyhoedd yn ddefnyddiol.
- 8.7 Gofynnodd y Bwrdd i risgiau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gweinyddiaethau Datganoledig gael eu hystyried yn y camau nesaf.

9. Diweddariadau pwyllgorau

- 9.1 **Pwyllgor Archwilio a Risg:** Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad Archwilio Mewnol blynyddol, a oedd yn nodi bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol yn ddigonol ac yn effeithiol ac yn rhoi sgôr o ddau allan o bedwar (yr ail uchaf).
- 9.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2024/25 a derbyniodd yr adroddiad rheoli risg Gwybodaeth gan roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod y trefniadau diogelu data ar draws y PSA yn gadarn.
- 9.3 **Pwyllgor Craffu:** Ymgwymerodd y Pwyllgor â'r Rhaglen Cofrestrau Achrededig (ARP) yn fanwl, gan gynnwys y strwythur gwneud penderfyniadau ynghylch cymeradwyo cofrestrau. Caiff y newidiadau eu treialu, a bydd y Pwyllgor yn eu monitro.
- 9.4 Sicrhawyd y Pwyllgor bod y mater o therapi trawsnewid yn cael sylw digonol yn yr ARP pan ddaeth i'r amlwg.
- 9.5 Bydd llythyr gyda chefnogaeth y PSA i gydraddoli TAW ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd preifat ar gyfer Cofrestrau Achrededig ac ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru'n statudol yn cael ei anfon i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- 9.6 Roedd trafodaeth ar achos chwythwr chwiban yr NMC wedi codi mater ystod a dyfnder y wybodaeth a dderbyniwyd. Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanylach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor sydd ar ddod.

10. Prosiect diogelu

- 10.1 Cyflwynodd y Pennaeth Achrediad yr eitem. Cadarnhawyd y bydd y mater hwn yn cyd-fynd â'r gwaith ar adolygu'r safonau ar gyfer AR a PR.
- 10.2 Y bwriad oedd darparu adnoddau ar gyfer hyn yn y tîm presennol ac felly roedd yn rhaid ei ffitio o amgylch ymrwymadau eraill ond teimlwyd bod hyn yn realistig ac yn bwysig.
- 10.3 Cytunodd y Bwrdd eu bod yn fodlon â'r dull gweithredu a chanmol y tîm am y gwaith a wnaed eisoes a sylweddoli bod hwn yn fater sy'n werth ei ystyried nid yn unig mewn perthynas ag AR ond hefyd ar gyfer rheoleiddwyr.
- 10.4 Pwysleisiodd y Bwrdd fod barn y cyhoedd ar y mater hwn yn bwysig ac y dylai'r prosiect barhau i geisio'r safbwyntiau hyn.
- 10.5 **Nodwyd** y diweddariad gan y Bwrdd.

11. Cynllun gwaith y Bwrdd 2024/25

- 11.1 **Nodwyd** y cynllun gwaith gan y Bwrdd.

12. Unrhyw fater arall

12.1 Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

13. Cwestiynau gan Aelodau'r Cyhoedd

13.1 Nid oedd unrhyw gwestiynau.

13.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r sylwedyddion am eu diddordeb yn y PSA.

Llofnodwyd gan y Cadeirydd Dyddiad.....

Cyfarfod y Bwrdd

Cofnodion cyhoeddus y cyfarfod

15 Mai 2024



Log Gweithredu

Ar y trywydd iawn (gan gynnwys heb ei ddechrau) Wedi'i oedi (neu risg ganolig o oedi ar gyfer prosiectau) Hwyr (neu risg uchel o oedi ar gyfer prosiectau) Wedi'i gyflawni

Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem.	Pwynt gweithredu	Perchennog	Dyddiad gofynnol	Cynnydd cam gweithredu	Statws
20 Medi 2023	5.10	Dod â'r diweddariadau am gynnydd yr adolygiad i bob cyfarfod Pwyllgor Craffu, ac adroddiad terfynol i gyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2024.	GM	Medi 2024	Parhaus – adroddwyd i SC ym mis Chwefror 2024. Diweddariad manwl i'w roi i SC ym mis Awst cyn diweddaru'r Bwrdd ym mis Medi.	
17 Ionawr 2024	9.4	Ychwanegu atodiad ar werth am arian (gan gynnwys caffael a rheoli contractau) yn y papurau cynllunio busnes yn haf 2024	JC	Gorffennaf 2024	Bydd yn cael ei gynnwys mewn drafft ar gyfer mis Medi	
20 Mawrth 2024	10.11	Gofyn i'r Pennaeth Polisi drefnu cyfarfod ar gyfer y tîm Polisi gydag aelodau'r Bwrdd DA bob chwe mis.	MV	Gorffennaf 2024	Wedi'i gyflawni; cyfarfodydd wedi'u hamserlennu.	
15 Mai 2024	6.8	Dod â diweddariad ar gynnydd adolygiad Adran 29 a'r adolygiad pwyntiau dysgu i gyfarfod y	GM	Medi 2024		

		Bwrdd ym mis Medi.				
15 Mai 2024	6.11	Dod â rhagolwg o nifer tebygol yr apeliadau i gyfarfod y Bwrdd yn Ionawr 2025.	GM	Ionawr 2025		